**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – BLAENORIAETHAU PORTFFOLIO**

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar y blaenoriaethau ym mhortffolio'r Economi a'r Seilwaith sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys diwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau, marchnata a hyrwyddo a'r amgylchedd hanesyddol.

2. Mae'r Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb yn cyflwyno sut y byddwn yn gweithio ar draws ffiniau traddodiadol er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau. Mae ein nod yn cwmpasu mwy na chyfoeth materol. Mae'n golygu bod gan bob un ohonom ansawdd bywyd da a'n bod yn byw mewn cymunedau diogel a chadarn, gyda swyddi sy'n talu'n dda, incwm aelwydydd a lefelau cynhyrchiant da.

3. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn darparu fframwaith ar gyfer ein hymagwedd llywodraeth gyfan tuag at gynyddu ffyniant a mynd i'r afael â phroblemau sylfaenol yn ymwneud â thlodi mewn ffordd fwy effeithiol a chydgysylltiedig.

4. Bydd pedair thema drawsbynciol y strategaeth yn ein helpu i sicrhau'r effaith fwyaf mewn cyfnod o ansicrwydd a chyflawni addewid Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn fy nhystiolaeth isod rwyf yn disgrifio sut y bydd fy mhortffolio yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r strategaeth, yn ogystal â rhestru fy nyletswyddau statudol.

## Cadw

### Yr Amgylchedd Hanesyddol

5. Mae ein hasedau hanesyddol cenedlaethol yn cynrychioli treftadaeth unigryw a gwerthfawr sy'n cefnogi bron i 40,700 o swyddi, sy'n cynhyrchu £963 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros ac sy'n hollbwysig i dwristiaeth. Mae 61% o ymwelwyr o dramor yn dweud mai ein safleoedd hanesyddol yw eu prif reswm dros ymweld â Chymru.

6. Daeth cyfran sylweddol o ddeddf arloesol Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i rym ym mis Mai 2017. I gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth newydd rydym hefyd wedi cyhoeddi polisi a chyngor gwell ar gynllunio ac arfer gorau eang ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

7. Rydym yn gyfrifol am reoli 129 o henebion ar hyd a lled Cymru, ac rydym yn buddsoddi yn y gwaith o'u gwarchod a'u datblygu yn flynyddol. Yn ystod y 18 mis diwethaf rydym wedi dechrau ar raglen o arolygiadau pob pum mlynedd sy'n rhoi darlun manwl inni o gyflwr yr eiddo rydym yn eu rheoli.

8. Yn 2017/18 mae ein rhaglen o waith cyfalaf yn cynnwys gwaith yn Y Gaer yn Aberhonddu, Castell Caernarfon, Castell Caerffili, Castell y Fflint a Phorth Mawr, yn ogystal â nifer fawr o brosiectau cadwraeth a masnachol ar draws Cymru.

### Perfformiad Ariannol

9. Gwelwyd gwelliant ym mherfformiad masnachol Cadw, wedi'i ysgogi gan welliannau mawr i brofiad ymwelwyr, a 2016-17 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus yn ei hanes, gyda mwy na £6.6 miliwn o incwm wedi'i gynhyrchu.

10. Yn dilyn ymlaen o'r perfformiad masnachol gwell yn y blynyddoedd diwethaf, mae dangosyddion cynnar o ffigurau ymwelwyr hyd yma yn ystod y flwyddyn yn awgrymu y bydd Cadw yn cael blwyddyn lwyddiannus arall.

Statws Cadw yn y dyfodol

11. Yn gynharach yn y flwyddyn fe wnaethom dderbyn argymhellion y Grŵp llywio a sefydlwyd gennym i adolygu dyfodol y gwasanaethau treftadaeth yng Nghymru (http://gov.wales/docs/drah/publications/170202-historic-wales-cy.pdf). Un o argymhellion y grŵp oedd y dylai Cadw fod yn gorff ar wahân i Lywodraeth Cymru ac y dylid creu Sefydliad Cenedlaethol newydd. Yn ystod yr haf rydym wedi bod yn cynnal gwerthusiad o opsiynau ar gyfer dyfodol Cadw, er mwyn profi'r opsiynau hyn a'u cymharu â'r sefyllfa bresennol o gadw'r corff yn rhan o'r llywodraeth. Cafodd grŵp llywio ei sefydlu, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, gyda chynrychiolwyr o Cadw, yr Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd ac adrannau eraill yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac ar draws Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiect ac mae ei ganfyddiadau yn cael eu hystyried yn awr.

Hwyluso cydweithrediad o fewn y sector

12. Argymhellion y grŵp llywio y soniwyd amdano uchod oedd llawer mwy o gydweithrediad rhwng ein prif sefydliadau treftadaeth a gweledigaeth ar gyfer Partneriaeth Strategol fel ateb i ddiogelu treftadaeth Cymru pan fydd cyllid cyhoeddus o dan bwysau difrifol. Cafodd y Bartneriaeth ei sefydlu ym mis Mai 2017 ac mae eisoes yn gwneud cynnydd da yn nhermau cydweithredu ar ffrydiau gwaith gan gynnwys sgiliau a datblygu, masnachol a chyflawni swyddogaethau swyddfa gefn ar y cyd. Yn ogystal â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru a Cadw, mae cydweithwyr ar Ochr yr Undebau Llafur yn elfen allweddol o waith y Bartneriaeth.

13. Mae'r Bartneriaeth Strategol yn darparu cyfle gwirioneddol i greu ffocws manylach a hunaniaeth gliriach i waith masnachol ein sefydliadau cenedlaethol.

**Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd**

14. Mae Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amrediad o fentrau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol drwy'r rhaglen Cyfuno, cefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol i blant a phobl o bob oed, gwella llythrennedd ac ymgysylltiad drwy fentrau sy'n cynnwys '*Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell'* a *Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd*, cefnogi cyfleoedd gwirfoddol a phrentisiaethau a darparu mynediad at wybodaeth drwy ein rhwydwaith o wasanaethau llyfrgelloedd ac archifau cyhoeddus.

15. Y flaenoriaeth yn y blynyddoedd nesaf fydd dilyn agenda weddnewid, i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau o ansawdd uchel yn erbyn cefndir ariannol anodd parhaus a chefnogi datblygiad dulliau newydd, yn arbennig ym maes gwasanaethau digidol, er mwyn cyflawni disgwyliadau cynyddol defnyddwyr am fynediad i wybodaeth ar-lein a gwasanaethau.

16. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant gwaith rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru ym maes ymgysylltu â'r gymuned, a disgwyliwn i'r sector, yn genedlaethol ac yn lleol, gyfrannu at Flwyddyn Chwedlau 2017 ac ymgyrchoedd yn y dyfodol.

17. Bydd y rhaglen Cyfuno yn parhau i fod yn flaenoriaeth inni, a byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y prosiectau peilot, er mwyn sicrhau bod grwpiau difreintiedig o bob cwr o Gymru yn datblygu sgiliau a hyder newydd drwy ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth.

18. Bydd ein sefydliadau cenedlaethol yn parhau i dderbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu ein diwylliant a darparu gwasanaethau ar hyd a lled y wlad. Yn 2018, bydd y gwaith o ddatblygu Sain Ffagan yn dwyn ffrwyth, gyda chymorth buddsoddiad o £7 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

19. Bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn parhau i arwain y gwaith o gyflawni gwasanaethau yn ddigidol a dechreuodd gyflwyno strategaeth 3 blynedd newydd ym mis Ebrill 2017, a fydd yn cynyddu'n sylweddol y swm o gynnwys digidol sydd ar gael ac yn darparu gwasanaethau arloesol a chynhwysol.

20. Mae cydweithio gydag ystod eang o sefydliadau a sectorau eraill yn hollbwysig er mwyn gwella cynaliadwyedd y broses o ddarparu gwasanaethau mewn hinsawdd economaidd heriol. Byddwn yn herio sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys Amgueddfa a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i gydweithio mewn ffordd ragweithiol i ymchwilio i ffyrdd o gynyddu buddsoddiad allanol mewn gweithgareddau treftadaeth ddiwylliannol a darparu arweinyddiaeth i'r sector yn ehangach.

<u>Amgueddfeydd</u>

21. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, llwyddodd 91 o amgueddfeydd lleol i gynnal y safonau a bennwyd gan Safon Achredu Amgueddfeydd y DU. Maent yn parhau i ofalu am dreftadaeth y DU a sicrhau ei bod ar gael er mwynhad ac addysg cymunedau lleol ac ymwelwyr. Mae cynllun newydd yn cael ei baratoi yn awr ar gyfer cefnogi'r sector amgueddfeydd.

22. Mae ymgynghorwyr wedi'u penodi i gynnal astudiaeth ymarferoldeb er mwyn ystyried y posibilrwydd o greu amgueddfa bêl-droed, neu amgueddfa chwaraeon fwy cyffredinol (sy'n deillio o'n cytundeb gyda Plaid Cymru ar y gyllideb ar gyfer 2017/18).

23. Astudiaeth ymarferoldeb i archwilio'r posibilrwydd o greu oriel celf gyfoes genedlaethol i Gymru (sy'n deillio o'n cytundeb gyda Plaid Cymru ar y gyllideb ar gyfer 2017/18).

<u>Archifau</u>

24. Rydym yn gweithio gyda gwasanaethau archifau lleol i gyflwyno modelau darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy, a chefnogi cydweithrediad er mwyn mynd i'r afael

â materion yn cynnwys diogelu a rheoli cofnodion ‘digidol anedig’ yn yr hirdymor. Mae cynllun newydd yn cael ei baratoi i gefnogi’r sector hwn.

25. Er gwaethaf yr heriau presennol, mae 11 o sefydliadau archifau yng Nghymru wedi’u Hachredu yn awr o dan gynllun Achredu’r Gwasanaeth Archifau, safon sicrhau ansawdd y DU ar gyfer archifau, a gyflwynwyd yn 2013, ac sy’n cael ei weinyddu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Mae mwy na 70% o’r gwasanaethau sy’n gorfod cyflawni’r Safon Achrediad er mwyn cadarnhau eu statws statudol fel lleoedd i gadw cofnodion cyhoeddus, wedi cyflawni Achrediad yn awr, ac mae’r gwasanaethau sy’n weddill yn gweithio at y gofynion Achrediad.

<u>Llyfrgelloedd cyhoeddus</u>

26. Mae’r pwysau ariannol parhaus ar gyllid awdurdodau lleol yn arwain at ostyngiad yn nifer y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ac mae rhai llyfrgelloedd yn cael eu cau ac eraill yn cael eu trosglwyddo i fod yn llyfrgelloedd sy’n cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu’n rhannol gan grwpiau cymunedol. Yn y cyfnod economaidd anodd hwn mae’n rhaid adolygu pob cyllideb yn ofalus. Fodd bynnag, mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ddyletswydd statudol ac maent yn cyfrannu at nifer sylweddol o feysydd polisi pwysig, gan gynnwys cynhwysiant digidol, dysgu, llythrennedd, ffyniant, iechyd a llesiant a chymunedau cynaliadwy.

27. Byddwn yn monitro’r newidiadau arfaethedig i wasanaethau llyfrgelloedd yn ofalus i sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd "cynhwysfawr ac effeithlon” i bawb.

28. Gallwn ymfalchïo yn ein gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru sydd, yn ôl ymchwil diweddar gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK wedi canfod bod 46% o’r boblogaeth yn eu defnyddio, a bod tua thri chwarter y bobl yng Nghymru yn dweud bod llyfrgelloedd cyhoeddus yn bwysig i’w cymunedau.

29. Mae ein gwaith partneriaeth gydag awdurdodau lleol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i wella’r cynnig digidol yn talu ar ei ganfed, gyda chynnydd yn y defnydd o ddeunyddiau clyweledol a chynnydd yn y nifer o bobl ifanc 15-24 oed sy’n defnyddio’r llyfrgell i 51% (o 2011 i 2016).

30. Mae ein Rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol llwyddiant wedi arwain at foderneiddio mwy na 100 o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, ac mae wedi agor adeiladau i gynulleidfaoedd newydd, a chreu mannau dysgu a diwylliannol modern a galluogi llyfrgelloedd i gynnal mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y llyfrgelloedd. Rydym yn dymuno adeiladu ar ein llwyddiannau diweddar a gweithio ar gynllun newydd ar gyfer llyfrgelloedd yng Nghymru.

<u>Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>

31. Fel yr esboniwyd eisoes yn y paragraffau blaenorol, mae ein sefydliadau cenedlaethol yn cyfrannu at amrediad o flaenoriaethau ac agendâu strategol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithgareddau cydweithredol a phartneriaid allweddol eraill yn yr adran treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru. Mae’r blaenoriaethau strategol ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol

Cymru wedi'u cyflwyno yn fy Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Mae llythyr 2017-18 yn canolbwyntio ar y ffordd mae'r sefydliadau hyn yn cyfrannu at flaenoriaethau yn *Symud Cymru Ymlaen* a chydnabod dyletswyddau statudol, gan gynnwys gofynion ar gyfer y ddau gorff o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

32. Cefais gyfarfod gyda Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y ddau sefydliad yn ddiweddar (25 Medi) i drafod cynnydd eu sefydliadau gyda phrosiectau a gweithgareddau allweddol. Bydd trafodaethau cynllunio busnes yn cael eu cynnal yn y man, a bydd y ddau sefydliad yn cyflwyno eu cynlluniau gweithredol ar gyfer 2018-19 (gan gynnwys dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn i ddod) i'w cymeradwyo gennyf cyn diwedd Mawrth 2018.

33. Yn gynharach yn y flwyddyn, comisiynais Dr Simon Thurley i gynnal adolygiad i helpu Llywodraeth Cymru i nodi'r ffyrdd mwyaf priodol y gallant helpu'r Amgueddfa Genedlaethol i fod yn fwy effeithlon ac yn fwy cynaliadwy. Mae Dr Thurley yn cydnabod ansawdd casgliadau cenedlaethol Amgueddfa Cymru, yn ogystal ag arbenigedd a gwybodaeth y staff ac mae o'r farn bod Amgueddfa Cymru yn un o amgueddfeydd gorau yn y DU. Rydym yn gweithio'n agos yn awr gyda Bwrdd Ymddiriedolaeth ac Uwch Dîm Rheoli Amgueddfa Cymru i benderfynu ar y camau nesaf ar gyfer yr adolygiad a'r argymhellion.

## <u>Y Celfyddydau</u>

<u>Blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Celfyddydau</u>

34. Mae Blaenoriaethau Strategol a meysydd gweithgarwch allweddol y celfyddydau yn cael eu cyflwyno yn ein Llythyr Cylch Gwaith i Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r llythyr presennol (2017-18) yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn Symud Cymru Ymlaen. Mae hyn yn cynnwys gwneud cyfraniad llawn i helpu i gyflawni'r ymrwymiadau newydd canlynol:

    - Cronfa Her newydd ar gyfer sefydliadau ym maes y celfyddydau a chwaraeon i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer eu prosiectau ac i uno creadigrwydd a datblygiadau digidol
    - Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth i helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial cerddorol
    - Amodau ariannu newydd ar gyfer sefydliadau diwylliannol sy'n cael arian cyhoeddus i gefnogi pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig
    - Ehangu'r rhaglen sy'n darparu mynediad agored at gyfleoedd diwylliannol i bobl ifanc
    - Creu 'Coridor Diwylliant yr A55' er mwyn troi'r coridor hwn yn un o lwybrau diwylliannol mawr Ewrop
    - Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar sefydlu Oriel Gelf Genedlaethol (yn unol â'n cytundeb â Phlaid Cymru ar gyllideb 2017/18).

35. Yn ogystal â phwysleisio'r ymrwymiad parhaus i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Llythyr Cylch Gwaith hefyd yn pwysleisio nifer o themâu a gweithgareddau:

- Bod yn greadigol weithgar
- Trechu tlodi ac anfantais
- Dysgu Creadigol
- Swyddi, sgiliau a'r economi
- Iechyd a llesiant
- Adfywiad
- Gwaith Rhyngwladol
- Digidol, Darlledu a Chyhoeddi
- Gwytnwch
- Cymru amrywiol a dwyieithog

36. Gwnaed cynnydd da iawn eisoes i gyflawni'r blaenoriaethau presennol hyn. Bydd Llythyr Cylch Gwaith 2018-19 i Gyngor y Celfyddydau Cymru yn adeiladu ar y themâu hyn a'r cynnydd a wnaed. Mae Cyngor y Celfyddydau yn cynhyrchu Cynllun Gweithredol (busnes) bob blwyddyn, sy'n egluro sut y bydd yn cyflawni'r gofynion yn y llythyr cylch gwaith ac rydym yn sicrhau ein bod yn fodlon â'r cynllun hwn cyn cytuno ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

<u>Incwm newydd ac ychwanegol ar gyfer y Celfyddydau</u>

37. Er gwaethaf y cyllid ychwanegol yr ydym wedi llwyddo i'w ddarparu i Cyngor y Celfyddydau eleni, mae gostyngiadau diweddar i lefelau cyllid cyhoeddus yn golygu bod yn rhaid i bob sefydliad diwylliannol chwilio am ffynonellau cyllid newydd, a chynhyrchu mwy o refeniw eu hunain. Mae hyn yn cynnwys: nawdd a rhoddion corfforaethol, dyngarwch a rhoddion unigol, cyllido torfol, cynlluniau aelodaeth a 'chyfeillion' a grantiau gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau elusennol. Byddwn yn gofyn i Cyngor y Celfyddydau sicrhau bod sefydliadau celfyddydol yn gwneud popeth y gallant yn y maes hwn, mewn ymgais i ddatblygu ffynonellau cyllid cynaliadwy a bod yn llai dibynnol ar gymorthdaliadau cyhoeddus.

**<u>Dinas Diwylliant y DU 2021</u>**

38. Rydym yn gwbl gefnogol o gynnig Dinas a Sir Abertawe i ddod yn Ddinas Diwylliant y DU ar gyfer 2021. Os bydd yn llwyddo, byddwn yn darparu cyllid sylweddol i Abertawe. Rydym hefyd yn barod i ddarparu 'cymorth mewn nwyddau', er mwyn helpu Abertawe gyda'r heriau ymarferol o gyflawni'r Flwyddyn, er enghraifft arbenigedd ar dwristiaeth a marchnata.

39. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r Fargen Ddinesig ac yn cyflymu adfywiad y ddinas. Ar ôl Brexit, bydd yn dangos i'r byd bod Cymru'n parhau i fod yn wlad sy'n edrych y tu

hwnt i'w ffiniau a'i bod ar agor i fusnes. Bydd hyn rhoi hwb enfawr i ymdeimlad o gymuned a hunaniaeth pobl Abertawe.

40. Rydym yn canmol gweledigaeth Abertawe o'r hyn y gellir ei gyflawni a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu hymgais i fod y ddinas gyntaf yng Nghymru i sicrhau'r anrhydedd pwysig hwn.

**Cyhoeddi a Llenyddiaeth**

Adolygiad annibynnol o'r cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth

41. Cyhoeddwyd adroddiad y panel ar 13 Mehefin ac fe wnes ddatganiad llafar yn diolch i'r panel am ei waith. Yn dilyn hyn rydym wedi derbyn sylwadau amrywiol gan randdeiliaid, gan gynnwys y cyrff perthnasol dan sylw, yn bennaf Cyngor Celfyddydau Cymru, Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Mae rhai o'r rhai a ysgrifennodd atom wedi mynegi pryderon ynglŷn ag agweddau'r adroddiad, ac mae eraill wedi darparu datganiadau o gymorth ar gyfer argymhellion yr adroddiad. Cytunodd y Panel adolygu annibynnol i ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac anfonwyd eu hymateb atom ar 25 Medi.

42. Cyn hynny, yn ystod yr haf, cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru, Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru i ystyried yr agweddau ymarferol o ddatblygu argymhellion yr adroddiad a hysbysu ein barn wrth inni baratoi ymateb ffurfiol i'r adroddiad yn ystod yr hydref.

43. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn cynnal ei ymchwiliad ei hun i'r adolygiad annibynnol o'r cymorth sydd ar gael i'r sector cyhoeddi a llenyddiaeth; cyflwynais dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 12 Hydref.

44. Byddaf yn ystyried ymateb y panel, dyddiedig 25 Medi, a chanfyddiadau'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu cyn cyflwyno fy ymateb ffurfiol i'w adroddiad.

Fforwm y Cyfryngau

45. Byddwn yn sefydlu fforwm y cyfryngau annibynnol newydd i roi cyngor ar ddyfodol y cyfryngau a darlledu yng Nghymru. Yn ystod yr hydref byddwn yn hysbysu swydd Cadeirydd y Fforwm yn gyhoeddus. Ar ôl penodi'r Cadeirydd, a chyda cyfranogiad y Cadeirydd, bydd aelodau eraill yn cael eu recriwtio i'r Fforwm. Y bwriad wedyn yw y bydd y Fforwm yn dechrau ei waith cyn gynted â phosibl.

**Marchnata a Chyfathrebu**

46. Mae'r brand newydd o 'Gymru' fel cyrchfan, a gyflwynwyd yn 2016, yn canolbwyntio ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n gwneud ein Gwlad yn gynhenid Gymreig ac yn rhagorol yn rhyngwladol. Mae hefyd yn ceisio creu dull mwy unedig a naratif cyson ar gyfer hyrwyddo Cymru ar lwyfan ryngwladol. Cafodd y gwaith hwn ei wneud mewn ymateb i'n huchelgeisiau i ddatblygu dull mwy integredig o hyrwyddo Cymru i'r byd fel gwlad i ymweld â hi, masnachu, buddsoddi a byw ynddi.

47. Mae'r dull newydd wedi derbyn canmoliaeth gan y cyfryngau, rhanddeiliaid a'r diwydiant ac mae'r ymgyrchoedd cysylltiedig yn cyflawni canlyniadau cryf.

Marchnata Twristiaeth

48. Mae Marchnata Twristiaeth fel arfer yn gweithredu fel cludwr baner i Gymru. Er mwyn atgyfnerthu'r dull newydd, mwy hyderus o hyrwyddo Cymru, cyflwynwyd cyfres o flynyddoedd â themâu i gyd-fynd â chyflwyniad y brand newydd. Dechreuodd hyn gyda Blwyddyn Antur yn 2016 a Blwyddyn Chwedlau yn 2017 a dilynir hyn gan Flwyddyn y Môr yn 2018 a Blwyddyn Darganfod yn 2019.

49. Diben y blynyddoedd thema hyn yw darparu canolbwynt ar gyfer marchnata a datblygu cynnyrch a chreu cynnig cryfach a chliriach i Gymru fel cyrchfan i dwristiaid. Dewiswyd y Flwyddyn Chwedlau yn benodol er mwyn dathlu diwylliant Cymru ac mae'n ceisio dod â'n gorffennol yn fyw mewn ffordd fodern ac i ddathlu chwedlau newydd.

50. Lansiwyd ein hymgyrch ryngwladol gwerth £5 miliwn, Blwyddyn Chwedlau, yn Ionawr 2017. Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar y farchnad ddomestig, gan gynnwys Cymru a'r DU yn ehangach, gyda phwyslais penodol ar Lundain a De-ddwyrain Lloegr, ac mae wedi derbyn adborth cadarnhaol gan y diwydiant, masnach a defnyddwyr fel ei gilydd.

51. Drwy gydol y flwyddyn byddwn yn canolbwyntio ar nifer o themâu sy'n ceisio dod â'r cynnwys a storïau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn thema, yn fyw. Er enghraifft, roedd ffocws ar Chwaraeon Chwedlonol er mwyn dathlu Gêm Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA a gynhaliwyd yng Nghymru ym Mehefin, a ffocws ar Wyliau Chwedlonol dros yr Haf, a oedd yn cynnwys gosodiad cleddyf enfawr a gyflwynwyd yn yr Eisteddfod ac yn y Sioe Frenhinol. Y ffocws yn nhymor yr Hydref eleni fydd Bwyd a Diod Chwedlonol, yna Teithiau Chwedlonol ar ddiwedd y flwyddyn i gyd-fynd â chyflwyniad Ffordd Cymru, llwybr dwristiaeth newydd â ffocws rhyngwladol.

52. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y thema Chwedlau yn gweithio, gydag arolwg Barometer Twristiaeth diweddar yn dangos bod 40% o fusnesau twristiaeth wedi cael mwy o ymwelwyr nag yn 2016, a dywedodd 82% eu bod yn teimlo'n hyderus ynglŷn â gweddill 2017.

53. Yn nhermau atgyfnerthu ein hatyniadau diwylliannol, mae Cadw ac Amgueddfa Cymru wedi cofnodi'r ffigurau uchaf erioed dros yr Haf. Ymwelodd bron i hanner miliwn o bobl â safleoedd Cadw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst, cynnydd o 8.2% ar 2016 ac ymwelodd hanner miliwn o bobl hefyd â'n hamgueddfeydd yn ystod yr un cyfnod, a oedd yn dangos cynnydd o 7% ar 2016.

**Digwyddiadau Mawr**

54. Mae cynnal Digwyddiadau Mawr yn cefnogi ein hymdrech i greu Cymru ffyniannus; maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi dwristiaeth. Mae'n ddiwydiant medrus iawn sy'n darparu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant o safon uchel ar lefelau

amrywiol. Mae sectorau busnes blaenoriaeth eraill yn elwa hefyd. Er enghraifft, mae'r sector diwydiannau creadigol yn elwa o gynnal digwyddiadau megis Gŵyl y Dyn Gwyrdd.

55. Rydym hefyd yn cefnogi portffolio o ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol 'cartref'. Mae'r rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau yn cynnig ystod gyfoethog ac eang o brofiadau diwylliannol. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig profiadau unigryw i gynulleidfaoedd, yma ac ar draws y byd, o Gymru fel gwlad ddilys, greadigol a byw.

56. Rydym wedi llwyddo i gyflawni hyn i gyd gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru ac mae'n brawf ein bod ni, ers lansio ein strategaeth digwyddiadau mawr yn 2010, wedi gwneud camau breision wrth ddatblygu statws Cymru yn y diwydiant digwyddiadau rhyngwladol.

57. Drwy weithio gyda phartneriaid o'r sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru a'r DU, rydym wedi meithrin perthnasau cryf ac effeithiol gyda pherchnogion digwyddiadau rhyngwladol a'r gymuned digwyddiadau rhyngwladol yn gyffredinol, gan sicrhau eu parch, eu hymddiriedaeth a'u hyder yng ngallu Cymru i gynnal digwyddiadau. Nid oes amheuaeth bod Cymru, mewn cyfnod o amser cymharol fyr, wedi llwyddo i fod yn gystadleuwr gwirioneddol mewn marchnad fyd-eang gystadleuol iawn.

58. Mae'r digwyddiadau yn dangos treftadaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'n prif artistiaid a pherfformwyr ar lwyfan rhyngwladol. Maent yn helpu i hyrwyddo bwyd a chynnyrch Cymru, ac yn darparu llwyfan proffil uchel ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

## Diwydiannau Creadigol

59. Byddwn yn sefydlu Cymru Greadigol i ddarparu gwasanaeth mwy holistaidd i'r Sector Creadigol yng Nghymru na'r hyn a gynigir yn awr. Rydym eisiau sicrhau twf parhaus y sector diwydiannau Creadigol ar draws Cymru gyfan, a sicrhau bod sector cynaliadwy'n cael ei greu ar gyfer yr hirdymor. I wneud hyn mae angen inni ddarparu cynnig mwy cydgysylltiedig o'r gwaelod i fyny ar gyfer y sector Creadigol, a fydd yn cynnig cymorth sy'n cwmpasu'r 'pileri' canlynol:

- Meithrin llwybrau talent a chymorth sgiliau sydd wedi'u harwain gan y diwydiant
- Mynediad at gyfalaf (preifat a chyhoeddus)
- Seilwaith, rhwydweithiau a gwaith partneriaeth

## Chwaraeon

60. Mae'r blaenoriaethau strategol a'r meysydd gweithgarwch allweddol wedi'u cyflwyno yn ein Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i Chwaraeon Cymru.

61. Mae chwaraeon elitaidd yn parhau i fod yn ffocws hollbwysig i weithgareddau Chwaraeon Cymru. Mae Cynllun Busnes 2017-18 Chwaraeon Cymru yn darparu rhai mesurau canlyniadau a pherfformiad i gadarnhau'r cynnydd a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Chwaraeon Elitaidd. Er enghraifft, gweithio gyda chyrff llywodraethu cenedlaethol er mwyn nodi athletwyr a allai ennill medalau yng Ngemau'r Gymanwlad 2018 a sicrhau bod cynlluniau perfformiad pwrpasol wedi'u sefydlu sy'n adlewyrchu eu gofynion unigol ar gyfer ennill medalau.

Adolygu Cyfleusterau

62. Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ym mis Gorffennaf 2016 i beidio cyflwyno cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yn 2026, cyhoeddwyd adolygiad o'r cyfleusterau chwaraeon yng Nghymru, gyda'r bwriad o gynyddu lledaeniad lleoliadau o'r radd flaenaf a fyddai'n creu budd i'r gymuned leol ac i athletwyr elitaidd a pherfformiad yn ogystal â chynyddu capasiti Cymru i gynnal digwyddiadau mawr yn y dyfodol.

63. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi ein strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb" a'n hymrwymiad i greu'r amodau a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl fod yn fwy egnïol.

Clwb Pêl-droed Wrecsam

64. Yn gynharach eleni dechreuwyd trafodaethau rhwng y rhanddeiliaid perthnasol i drafod unrhyw ddatblygiadau posibl ar gyfer stadiwm y Cae Ras. Ar wahân i'w hanes cyfoethog yn y byd pêl-droed, gall y stadiwm gynnal digwyddiadau mawr a allai fod o fudd i economi Wrecsam yn ogystal â rhanbarth cyfan Gogledd Cymru. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

Gemau Olympaidd Arbennig Cymru

65. Ym mis Awst eleni anfonodd Gemau Olympaidd Arbennig Cymru dîm i gystadlu yng Ngemau Haf Cenedlaethol y Gemau Olympaidd Arbennig a gynhaliwyd yn Sheffield. Cystadlodd y tîm mewn 11 o feysydd chwaraeon gwahanol a llwyddo i ennill mwy na 200 o fedalau. Rydym wedi darparu £10,000 gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r tîm sy'n galluogi i bobl ag amrediad o anableddau dysgu gwahanol i gystadlu mewn digwyddiad chwaraeon mawr. Cynhaliodd y Prif weinidog dderbyniad yn ddiweddar i groesawu'r cystadleuwyr a'r staff cymorth yn dilyn y digwyddiad.

Gemau Cymru

66. Mae Gemau Cymru yn ddigwyddiad aml-chwaraeon dwyieithog blynyddol sy'n darparu cyfle i athletwyr ifanc talentog yng Nghymru gystadlu mewn cystadleuaeth genedlaethol bwysig. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y digwyddiad unigryw hwn.

Gemau'r Gymanwlad, Arfordir Aur 2018

67. Drwy Gemau Cymru, rydym yn darparu pecyn cyllid i Gemau'r Gymanwlad Cymru i gefnogi presenoldeb Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad ar Arfordir Aur, Awstralia fis Ebrill y flwyddyn nesaf.

Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Cyfleusterau Chwaraeon

68. Drwy Gynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon Cymru rydym wedi darparu cyllid o fwy na £2.4 miliwn i awdurdodau lleol Wrecsam, Conwy a Chaerdydd er mwyn iddynt uwchraddio eu cyfleusterau chwaraeon a hamdden.

Gardd Fotanegol Genedlaethol Cymru

69. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth grant i gefnogi gweithgareddau'r Ardd. Yn 2017-18 dyrannwyd cyfanswm o £581,000 o gyllid refeniw, yn ogystal â £95,000 o gyllid cyfalaf.

**Dyletswyddau Statudol**

Isod rwyf wedi cyflwyno'r Dyletswyddau Statudol sy'n berthnasol i fy mhortffolio.

Cynlluniau Eiddo Diwylliannol

Cynllun Derbyn yn Gyfnewid am Dreth Etifeddiant a Rhoddion Diwylliannol

70. Mae'r cynlluniau Derbyn yn Gyfnewid am Dreth Etifefddiant a Rhoddion Diwylliannol yn cael eu rheoli yng Nghymru gan swyddogion. Mae'r cynllun yn galluogi trethdalwyr i drosglwyddo gwaith celf a gwrthrychau treftadaeth pwysig i berchenogaeth gyhoeddus, wrth dalu treth. Mae'r Cynllun Rhoddion Diwylliannol yn galluogi i drethdalwyr y DU roi gwaith celf pwysig a gwrthrychau diwylliannol eraill er budd i'r cyhoedd a derbyn gostyngiad treth yr un pryd yn seiliedig ar ganran sefydlog o werth y rhodd sy'n cael ei wneud.

Esemptiad o'r Dreth Etifeddiant a'r Dreth ar Enillion Cyfalaf

71. Mae esemptiad o'r dreth etifeddiant a'r dreth ar enillion cyfalaf ar gael i berchenogion eiddo treftadaeth rhagorol, yn ddarostyngedig i ymgymeriadau sydd wedi'u cymeradwyo gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r ymgymeriadau hyn yn cynnwys gofyniad ar ran y perchennog i gymryd unrhyw gamau rhesymol i ddiogelu'r gwrthrychau a darparu mynediad i'r cyhoedd iddynt. Mae swyddogion arbenigol yn darparu cyngor i CThEM ar eitemau sydd wedi'u heithrio o'r dreth etifeddiant a'r dreth ar enillion cyfalaf.

Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964

72. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu 'gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon' o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Fel Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith mae gennyf ddyletswydd i 'arolygu, a hyrwyddo gwelliannau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol'. Mae'r broses bresennol o gyflawni'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'i gweinyddu gan swyddogion.

Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1996 adran 60

73. Mae Adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor sefydlu a chynnal cynllun sy’n cyflwyno eu trefniadau ar gyfer gofalu, cadw a rheoli eu cofnodion yn briodol, gan gynnwyd deunyddiau hanesyddol i’w cadw fel archifau, a chofnodion gweinyddol yr awdurdod. Mae cynlluniau Adran 60 yn cael eu monitro gan swyddogion.

Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958

74. Mae gwasanaethau archifau yng Nghymru (gwasanaethau awdurdodau lleol, prifysgolion a sefydliadau cenedlaethol) yn cael eu cymeradwyo gan yr Archif Genedlaethol fel lleoedd adneuo (PoD) er mwyn cynnal cofnodion cyhoeddus dynodedig. Er mwyn cynnal eu statws fel lleoedd adneuo, mae’n rhaid i wasanaethau archif gyflawni safon y DU ar gyfer Achredu Gwasanaethau Archif. Mae’r cynllun hwn yn cael ei weinyddu yng Nghymru gan swyddogion.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

75. Mae Cadw yn cyflawni nifer o swyddogaethau statudol ar ran Gweinidogion Cymru o ran yr amgylchedd hanesyddol. Mae’r prif swyddogaethau wedi’u cynnwys yn Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae’r swyddogaethau yn cynnwys:

- dynodi a diogelu asedau hanesyddol
- rheoli a gwarchod a sicrhau mynediad y cyhoedd i safleoedd cenedlaethol pwysig – eiddo mewn gofal Cadw
- cynnal cofnodion cynhwysfawr ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol

76. Mae Cadw hefyd yn cynnal nifer o swyddogaethau cynllunio statudol lle y gallai hyn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol, er enghraifft, rhoi sylwadau ar gynigion datblygu penodol a allai effeithio ar henebion cofrestredig, parciau, gerddi a thirluniau hanesyddol cofrestredig a Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd a’u lleoliadau.

Chwaraeon

77. Cafodd Cyngor Chwaraeon Cymru, sydd bellaf yn masnachu fel Chwaraeon Cymru, ei sefydlu o dan Siarter Frenhinol ym 1972. Fel corff cyhoeddus, ei brif rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru. Ei brif bwrpas yw cefnogi, annog a meithrin gwybodaeth a datblygiad chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol a chyflawni rhagoriaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru.

78. Mae ei amcanion statudol wedi’u rhestru yn y Siarter Frenhinol ac mae ei nodau wedi’u cynnwys yn y cynllun busnes blynyddol.